Hysbyseb Swydd Ddrafft

Pennaeth yr Amgylchedd a Seilwaith

£94,200 i £100,348 y flwyddyn a chodiad cyflog o Ebrill 2023 (sydd i'w gytuno)

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n cynnwys tirweddau amrywiol gan gynnwys ardaloedd trefol a gwledig, parciau gwledig ac amgylcheddau arfordirol hanesyddol ac mae ein Cyngor yn awdurdod lleol sy'n perfformio'n gyflym, bywiog ac yn flaengar ac sy'n edrych ymlaen yn gyson at wella ac yn ymrwymedig i gynnal ei henw da rhagorol am ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf. Rydym nawr yn ceisio penodi Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol.

Mae hon yn rôl newydd i'n helpu ni wireddu ein huchelgais. Bydd y rôl hon yn arwain ar gylch gwaith eang sy'n cynnwys rheoli a chynnal a chadw trafnidiaeth a phriffyrdd; gwasanaethau cefn gwlad; gwasanaethau parcio; rheoli gwastraff ac ailgylchu; gorfodi amgylcheddol; glanhau strydoedd a rheoli sbwriel; seiliau cynnal a chadw a swyddogaethau wrth gefn sifil.

Mae'n gyfle i arwain y gwasanaethau a fydd yn cefnogi ansawdd bywyd ac amgylchedd gwell i'n cymunedau. Rydym yn chwilio am y cyfuniad cywir o arbenigedd proffesiynol a sgiliau arwain gwych – rhywun sy'n gallu ymgysylltu, ysbrydoli, ac ennill cefnogaeth gan eraill wrth drawsnewid gwasanaethau. Byddwch eisoes wedi profi eich gallu i ddarparu prosiectau cymhleth sydd wedi eich gweld yn cyfieithu uchelgais strategol i ganlyniadau mesuradwy yng nghyd-destun ystod allweddol o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

Yn ddelfrydol, bydd angen lefel resymol o Gymraeg sgyrsiol arnoch a gellir darparu cefnogaeth wrth benodi i gyrraedd y lefel hon.

Ewch i [dolen tudalen gwefan CCC unwaith y crëwyd] am fwy o wybodaeth.

Ydy'r swydd i chi?

Os oes gennych gryn egni a gyriant ac mae gennych hanes profedig o arweinyddiaeth drawsnewidiol lwyddiannus a rheolaeth strategol o fewn sefydliad aml-weithredol o gwmpas a chymhlethdod tebyg, efallai mai dyma'r cyfle rydych chi wedi bod yn chwilio amdano. Yn ogystal, byddwch yn gwybod sut olwg sydd ar wasanaethau dosbarth cyntaf, a byddwch yn gwybod sut i gefnogi ac ysgogi eich staff i gyflawni'r safonau hyn o fewn amgylchedd heriol.

Am drafodaeth anffurfiol ynglyn â'r rôl hon, cysylltwch ag Ainsley Williams, Cyfarwyddwr, yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ar 01267 224647 neu Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) ar 01267 246123

Am becyn cais ewch i: [cyfeiriad gwe CCC]